# Protocol ar y Cyd rhwng Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru a Bwrdd Cynllunio Ardal Gogledd Cymru

Ionawr 2024 Fersiwn 3

## 1.0. Cyflwyniad

1.1. Mae Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru a Bwrdd Cynllunio Ardal Gogledd Cymru wedi ymrwymo i gydweithio'n effeithiol. Nod y ddogfen hon yw:

- Cefnogi cydweithredu a chydweithio, pan fo hynny'n synhwyrol ac yn ymarferol
- Sefydlu dull cyfathrebu cadarn a chlir rhwng y Bwrdd Cynllunio Ardal a'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol
- Helpu i osgoi dyblygu diangen a sicrhau bod unrhyw wersi sy'n cael eu dysgu yn cael eu rhannu'n eang ar draws partneriaethau aml asiantaeth a phrosesau adolygu priodol

## 2.0. Y Fframwaith Cyfreithiol

### 2.1. Bwrdd Cynllunio Ardal Gogledd Cymru

2.2. Mae Canllawiau Diwygiedig gan Lywodraeth Cymru ar gyfer byrddau cynllunio ardal camddefnyddio sylweddau 2017 yn nodi rôl a chyfrifoldebau Byrddau Cynllunio Ardal yng Nghymru:

- Gwella a chryfhau'r trefniadau ar gyfer cynllunio, comisiynu a rheoli perfformiad gwasanaethau camddefnyddio sylweddau

- Cynorthwyo awdurdodau cyfrifol a phartneriaid perthnasol eraill i gyflawni eu cyfrifoldeb statudol drwy ddarparu system i ddod ag adnoddau ynghyd lle bo hynny'n briodol a rhannu arbenigedd i ddarparu Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru drwy:

- Lunio strategaeth gomisiynu sy'n seiliedig ar ganlyniadau ar draws y Bwrdd Cynllunio Ardal, gan lunio cynllun gweithredu wedi'i gostio'n llawn i gefnogi'r strategaeth gomisiynu ac ystadau

- Sicrhau bod yna system reoli cyfrifyddu ac archwilio priodol ar waith er mwyn gweinyddu refeniw Cronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau (SMAF) a chronfeydd cyfalaf yn effeithiol

- Sicrhau bod Safonau Craidd Cenedlaethol ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau a safonau perthnasol eraill yn cael eu sefydlu yng ngwaith cynllunio pob gwasanaeth, a systemau darparu gyda threfniadau priodol i reoli ac adolygu perfformiad

- Sicrhau bod pob gwasanaeth sy'n cael ei ariannu yn ffurfio rhan o lwybr gofal integredig

- Sicrhau bod trefniadau ar waith i dderbyn, ystyried a gweithredu ar ddata rheoli perfformiad

- Adnabod cyfleoedd pan fydd cynllunio, comisiynu a darparu

gwasanaethau ar sail ranbarthol yn gost effeithiol ac yn darparu platfform gwell i ymgysylltu gyda darparwyr neu ddefnyddwyr gwasanaeth

- Gweithio gyda'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i asesu gofal camddefnyddio sylweddau a chefnogi anghenion poblogaeth gogledd Cymru

- Gweithio'n agos gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn cael eu hystyried yng nghyd-destun gwasanaethau gofal a chymorth eraill.

2.3. **<u>Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru</u>**

2.4. Mae Rheoliadau Bwrdd Diogelu 2015 (Cymru) yn nodi rôl a chyfrifoldebau Byrddau Diogelu Rhanbarthol:

- Cyfrannu at adolygu a datblygu polisïau a gweithdrefnau
- Codi ymwybyddiaeth o gamdriniaeth, esgeuluso a niwed yn ardal y Bwrdd
- Adolygu effeithiolrwydd mesurau diogelu lleol
- Cynnal adolygiadau ymarfer plant ac oedolion ac archwiliadau, adolygiadau ac ymchwiliadau eraill, a monitro eu hargymhellion
- Rhannu gwybodaeth am arfer gorau a dysgu
- Adolygu anghenion hyfforddi a sicrhau darpariaeth o hyfforddiant
- Cydweithredu gyda Byrddau eraill - Bwrdd Cynllunio Ardal
- Cymryd rhan yng ngwaith Byrddau Diogelu
- Cynlluniau blynyddol ac adroddiadau blynyddol y Bwrdd Diogelu

## 3.0. <u>Trefniadau Lleol Gogledd Cymru</u>

3.1. Bob blwyddyn bydd Cadeirydd Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru/ Cadeirydd/ Rheolwr Busnes Uned Fusnes Bwrdd Cynllunio Ardal Gogledd Cymru yn cyfarfod i drafod y prif themâu o'u blaenoriaethau/ Cynlluniau Busnes. Fe fydd y cyfarfod hefyd yn adolygu unrhyw brif themâu o adolygiadau diweddar lle cafodd problemau yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau eu nodi.

## 4.0. <u>Comisiynu a Diogelu</u>

4.1. O ran y gwasanaethau y mae'r Bwrdd Cynllunio Ardal yn eu comisiynu, pan gaiff problemau diogelu eu nodi sy'n ymwneud â darparu'r gwasanaeth, bydd aelod/swyddog perthnasol o'r Bwrdd Cynllunio Ardal yn llunio Adroddiad Diogelu Gogledd Cymru (atgyfeiriad) i'r Awdurdod Lleol perthnasol yn yr ardal lle digwyddodd y gamdriniaeth bosibl.  Mewn argyfwng, dylai'r aelod/swyddog perthnasol gysylltu â'r Heddlu.

4.2. Os ydi’r honiad yn ymwneud â gweithiwr proffesiynol, dylai aelod/swyddog perthnasol y Bwrdd Cynllunio Ardal adrodd am y pryder i’r awdurdod lleol perthnasol a dylent gadw at adran Honiadau yn erbyn Gweithwyr Proffesiynol yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan 2019.

4.3.

Bydd pob contract am wasanaethau a gomisiynwyd gan y Bwrdd Cynllunio Ardal yn cynnwys gofynion i’r darparwr gwasanaeth:

- gydymffurfio â Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan 2019
- bod â pholisïau/gweithdrefnau clir ynglŷn ag ymarfer diogelu, yn cynnwys gwiriadau recriwtio diogel
- adrodd problemau diogelu sy’n ymwneud â darparu’r gwasanaeth i Reolwr Comisiynu a Datblygu Bwrdd Cynllunio Ardal

Fe fydd pryderon diogelu nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â darparu’r gwasanaeth yn cael eu rheoli gan ddarparwyr gwasanaeth yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan 2019.

4.4. Yn strategaeth gomisiynu’r Bwrdd Cynllunio Ardal, fe fydd yna ymrwymiad clir i ddiogelu.

4.5. Mewn cysylltiad ag adroddiad gwersi a ddysgwyd ynglŷn â digwyddiadau difrifol allai fod wedi digwydd o fewn gwasanaeth a gomisiynwyd gan y Bwrdd Cynllunio Ardal, fe fydd trafodaethau’n cael eu cynnal rhwng y byrddau/sefydliadau priodol ynglŷn â chyfrifoldebau dros lenwi’r adroddiad ac ynglŷn â’r math o adroddiad sydd ei angen.